Coleg Gwent



# FFRAMWAITH LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth

Coleg Gwent

| | |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:** | Mawrth 16eg 2026 |
| **Cymeradwywyd gan:** | Y Gorfforaeth wrth ymgynghori â'r Undebau Llafur |
| **Haen:** | 1 |
| **Awdur:** | Diane Clark, Cyfarwyddwr TGCh |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 07/07/2026 |
| **Dyddiad Adolygu:** | 07/2027 |
| **Cyhoeddwyd ar:** | Gwefan<br>Mewnrwyd y Staff<br>CG Connect |
| **Hygyrchedd:** | Ar gael mewn ffont mawr a fformatau eraill ar gais |

# Cynnwys

## FFRAMWAITH LLYWODRAETHU GWYBODAETH

1 Cyflwyniad ....1
2 Pwrpas a Chwmpas ....1
3 Strwythur Fframwaith ....2
4 Cyfrifoldebau a Rennir gan y Coleg a'i ddefnyddwyr ....3
5 Llywodraethu, Rolau ac Atebolrwydd ....3
6 Addysg, Arweiniad a Chefnogaeth ....6
7 Monitro, Diogelu a Phreifatrwydd ....7
8 Adrodd am Bryderon a Digwyddiadau ....8
9 Canlyniadau Peidio â Chydymffurfio ....10
10 Y Cyd-destun Cyfreithiol a Rheoleiddio ....11
11 Adolygu ac Argaeledd ....11

## POLISI DEFNYDD DERBYNIOL

1 Datganiad Polisi ....12
2 Pwrpas a Chwmpas ....12
3 Safonau Defnyddio ac Ymddygiad ....12

## POLISI E-DDIOGELWCH

1 Datganiad Polisi ....14
2 Pwrpas a Chwmpas ....14
3 Safonau Ddefnyddio ac Ymddygiad ....14

## POLISI DIOGELWCH GWYBODAETH

1 Datganiad Polisi ....17
2 Pwrpas a Chwmpas ....17
3 Egwyddorion Diogelwch Gwybodaeth ....17
4 Ymrwymiadau Diogelwch Gwybodaeth ....18

## POLISI DIOGELU DATA

1 Datganiad Polisi ....20
2 Pwrpas a Chwmpas ....20
3 Egwyddorion Diogelu Data ....20
4 Egwyddorion Diogelu Data ....20

# FFRAMWAITH LLYWODRAETHU GWYBODAETH

## 1 Cyflwyniad

Mae'r Fframwaith yma'n egluro sut mae'r Coleg yn rheoli defnydd diogel, cyfreithlon a chyfrifol gwybodaeth a thechnolegau digidol. Mae'n egluro'r egwyddorion cyffredinol, bod yn atebol, a'r agweddau yn seiliedig ar risg sy'n sail i ddiogelwch gwybodaeth, diogelu data, diogelwch ar-lein a defnyddio TGCh y Coleg i gefnogi addysgu, dysgu a gweithrediadau o ddydd i ddydd.

At ddibenion y Fframwaith hwn, mae'r Coleg yn cyfeirio at Coleg Gwent, gan gynnwys yr holl gampysau, gwasanaethau, a ffwythiannau busnes. Mae'r Fframwaith yma hefyd yn gymwys, lle mae'n berthnasol i gontractwyr ac is-gontractwyr sy'n gweithredu ar ran y Coleg, yn unol â'u cyfrifoldebau cytundebol.

At bwrpas y Fframwaith hwn, mae *TGCh y Coleg* yn cynnwys yr holl systemau, gwasanaethau, rhwydweithiau, offer, dyfeisiau, cyfrifon defnyddwyr a gwybodaeth, p'un a yw'n eiddo i'r Coleg, yn cael ei ddarparu gan drydydd parti neu'n eiddo personol sydd wedi'i awdurdodi ar gyfer defnyddio yn y Coleg.

Mae diogelwch gwybodaeth effeithiol yn galluogi'r Coleg i:

- ddiogelu dysgwyr, staff, llywodraethwyr a defnyddwyr eraill
- diogelu gwybodaeth, systemau a chyfrifon eraill
- lleihau'r perygl o niwed, colli data, camddefnydd a gweithgaredd troseddol
- bodloni ymrwymiadau cyfreithiol rheoleiddio a chytundebol
- gwarchod enw da ac uniondeb y Coleg

## 2 Pwrpas a Chwmpas

Mae'r fframwaith hwn yn egluro disgwyliadau gorfodol y Coleg ar gyfer defnyddio TGCh y Coleg yn ddiogel ac yn gyfrifol. Mae'n diffinio rolau a chyfrifoldebau, amlinellu agwedd gyffredinol y Coleg tuag at ddiogelwch gwybodaeth a rheoli risg, ac mae'n sail i gydymffurfio gyda deddfwriaeth berthnasol, gofynion rheoleiddiol a'r safonau cydnabyddedig.

Yn sail i'r Fframwaith hwn mae Polisi Rheoli Risg y Coleg, a chyfradd y risg gysylltiedig, sy'n sefydlu agwedd dim goddefgarwch mewn perthynas â risgiau Llywodraethu Gwybodaeth. Mae hyn yn adlewyrchu cyfrifoldebau diogelu'r Coleg a'i ymrwymiadau cyfreithiol a rheoleiddiol, yn arbennig felly diogelu data, diogelwch gwybodaeth a diogelwch ar-lein.

Oni bai y nodir hynny'n eglur, mae'r holl bolisïau o fewn y Fframwaith hwn yn berthnasol i'r holl ddefnyddwyr ac i ddefnyddio TGCh y Coleg, waeth beth fo'r lleoliad neu berchnogaeth y ddyfais.

- **Pobl**: yr holl ddysgwyr, staff, llywodraethwyr, contractwyr, is-gontractwyr ac eraill sy’n gweithredu ar ran y Coleg
- **Technoleg**: yr holl TGCh Coleg ffisegol a rhithiol
- **Gwybodaeth**: yr holl wybodaeth mae’r Coleg yn ei greu, ei dderbyn neu ei reoli, mewn unrhyw fformat

Lle mae’n briodol, mae hefyd yn berthnasol i ddarparu dysgwyr, rhieni neu ofalwyr ac unigolion eraill sy’n rhyngweithio gyda TGCh y Coleg, yn unol â natur y rhyngweithiad hwnnw ac i ba raddau y gwneir hynny.

Mae’r Coleg yn cymhwyso dull yn seiliedig ar risg a dull cymesur tuag at ddiogelwch gwybodaeth, gan gymryd i ystyriaeth cyfrifoldebau diogelu, rhwymedigaethau cyfreithiol, a lefel y risg mae’r Coleg yn barod i’w dderbyn. Mae trefniadau diogelwch gwybodaeth hefyd yn cefnogi cynllunio ar gyfer parhad busnes ac adfer trychineb.

Mae’r fframwaith hwn yn ffurfio rhan o fframwaith llywodraethu ehangach y Coleg a rhaid ei gymhwyso ochr yn ochr â’r polisïau, gweithdrefnau a chodau ymddygiad perthnasol. Mae cydymffurfio gyda’r Fframwaith hwn a’i bolisïau atodol yn amod cyflogaeth, ymrestriad neu ymgysylltiad gyda’r Coleg, fel sy’n gymwys, ac yn unol â gweithdrefnau’r Coleg a’r gyfraith berthnasol.

## 3 Strwythur y Fframwaith

Mae’r Fframwaith yn dwyn ynghyd bolisïau Haen 1 y Coleg sy’n cwmpasu’r meysydd canlynol:

- **Polisi Defnydd Derbyniol** - sut y gellir defnyddio systemau TGCh y Coleg a gwybodaeth
- **Polisi E-Ddiogelwch** - cadw’n ddiogel ar-lein a chyfathrebu’n barchus
- **Polisi Diogelwch Gwybodaeth** - diogelu systemau, cyfrifon a gwybodaeth
- **Polisi Diogelu Data** - trin data personol yn gyfreithlon ac yn ddiogel

Mae pob polisi’n cadw ei bwrpas a’i gwmpas unigryw ei hun. Mae’r Fframwaith hwn yn darparu’r dull llywodraethu, egwyddorion a disgwyliadau a rennir cyffredinol sy’n berthnasol ar draws yr holl bolisïau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer hyfforddi, monitro, adrodd, cydymffurfiaeth a rheoli risg.

Mae’r dull hwn yn osgoi dyblygu ac yn hyrwyddo cysondeb o ran sut mae risgiau llywodraethu’n cael eu rheoli.

Lle mae gofynion yn gorgyffwrdd neu’n gwrthdaro, mae rhwymedigaethau diogelu a chyfreithiol yn cael blaenoriaeth, ac yn dilyn hynny, diogelu data a gofynion diogelwch gwybodaeth.

## 4 Cyfrifoldebau a Rennir gan y Coleg a'i Ddefnyddwyr

Mae'r adran hon yn egluro'r cyfrifoldebau a rennir sydd gan y Coleg a'i ddefnyddwyr mewn perthynas â defnydd diogel a chyfrifol o TGCh y Coleg. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad y Coleg i weithredu'n gyfreithlon, yn gymesur a chyda chefnogaeth briodol, wrth ei gwneud hi'n eglur beth sy'n ddisgwyliedig gan bob defnyddiwr.

Bydd y Coleg yn:

- darparu TGCh Coleg diogel
- gosod disgwyliadau eglur a darparu hyfforddiant, addysg ac arweiniad priodol
- cymhwyso rheolyddion diogelwch technegol a sefydliadol
- adnabod, rheoli ac adolygu risgiau diogelwch gwybodaeth
- ymateb yn syth ac mewn ffordd gymesur i ddigwyddiadau a phryderon
- gweithio gyda chyflenwyr a phartneriaid sy'n bodloni gofynion diogelwch a gwarchod data
- gweithredu'n gyfreithlon ac mewn ffordd gymesur

Disgwylir i'r holl ddefnyddwyr:

- ddefnyddio TGCh y Coleg mewn ffordd ddiogel, cyfreithiol a chyfrifol
- gwarchod manylion mewngofnodi a diogelu gwybodaeth y Coleg a data personol
- ymddwyn yn barchus ac yn broffesiynol ar-lein
- adrodd am bryderon, digwyddiadau neu amheuaeth o dorri amodau yn syth
- chwilio am gyngor neu gefnogaeth pan rydych yn ansicr

## 5 Llywodraethu, Rolau ac Atebolrwydd

Mae'r adran hon yn egluro sut mae risgiau diogelwch gwybodaeth, diogelu, a diogelu data yn cael eu llywodraethu ar draws y Coleg, gan gynnwys sut mae maint risg yn cael ei ddiffinio, sut mae atebolrwydd yn cael ei neilltuo, a phenderfyniadau'n cael eu gwneud lle mae angen derbyn dehongli, eithriadau neu risg.

### 5.1 Maint y Risg a Throsolwg Uwch

Mae maint y risg mae'r Coleg yn fodlon ei gymryd ar gyfer diogelwch gwybodaeth a diogelu data yn cael ei osod gan y Corff Llywodraethu drwy'r Gofrestr Risg Corfforaethol, yn unol â Pholisi Rheoli Risg y Coleg.

Mae trosolwg uwch yn sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod, eu hasesu a'u rheoli yn unol â chyfrifoldebau diogelu'r Coleg, ymrwymiadau cyfreithiol a blaenoriaethau strategol. Lle mae risgiau'n mynd y tu hwnt i faint y risg y cytunwyd arno, neu lle mae'r traweffaith posib yn sylweddol, caent eu huwchgyfeirio i'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol (CLT), a, lle mae'n briodol, i'r Corff Llywodraethu drwy'r Pwyllgor Archwilio.

## 5.2 Rolau a Chyfrifoldebau Llywodraethu

Mae rolau a chyfrifoldebau eglur yn cefnogi dull llywodraethu effeithiol o ran diogelwch gwybodaeth, diogelu a diogelu data. Mae'r rolau allweddol yn cynnwys:

- **Y Corff Llywodraethu** - mae'n derbyn sicrwydd bod trefniadau cymesur ac effeithiol yn eu lle er mwyn rheoli risgiau cysylltiedig
- **Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol** - mae'n darparu trosolwg uwch ac yn ystyried risgiau sylweddol, digwyddiadau ac adroddiadau sicrwydd
- **Cyfarwyddwr TGCh** - dyma berchennog y fframwaith ac mae ganddynt awdurdod o safbwynt sut mae'n cael ei ddehongli, cymeradwyo disgwyliadau a derbyn risgiau diogelwch gwybodaeth. Mae trosolwg AD yn berthnasol lle gallai ymddygiad staff, monitro neu ddeilliannau cyflogaeth gael eu heffeithio, gydag uwchgyfeirio i'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol ar gyfer materion newydd neu risg uchel
- **Rheolwyr** - mewnosod gofynion fframwaith yn rhan o arfer o ddydd i ddydd
- **Timau Diogelu** - rheoli diogelu a phryderon sy'n gysylltiedig gydag Prevent, gan gynnwys rhai sy'n codi o weithgaredd digidol
- **Pennaeth Seilwaith a Diogelwch** - mae'n gweithredu rheolwyr technegol ac yn ymchwilio i ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth
- **Swyddog Diogelu Data -** mae'n goruchwylio cydymffurfio gyda diogelu data a rheoli tor-data personol

## 5.3 Atebolrwydd Defnyddiwr a Chymesuroldeb

Mae defnyddwyr yn gyfrifol am bob gweithgaredd a wneir gan ddefnyddio TGCh y Coleg.

Mae'r Coleg yn cydnabod bod gan ddefnyddwyr wahanol lefelau o brofiad, hyder ac anghenion cefnogi digidol. Pan mae pryderon yn codi, gwneir gwahaniaeth eglur rhwng:

- camgymeriad dilys, camddeall neu ddiffyg ymwybyddiaeth; a
- diffyg cydymffurfio bwriadol, diofal neu ailadroddus.

Er enghraifft, byddai camgymeriad untro yn codi o ddiffyg ymwybyddiaeth fel arfer yn cael ei ddelio ag o drwy ganllawiau neu hyfforddiant, lle byddai anwybyddu gofynion diogelwch bwriadol neu ailadroddus angen camau gweithredu mwy ffurfiol o bosib.

Bydd materion yn cael eu delio â hwy yn deg ac yn gymesur, gydag addysg, arweiniad a chefnogaeth a ddefnyddir i ymateb yn y lle cyntaf pryd bynnag mae hynny'n briodol, yn arbennig felly ar gyfer dysgwyr.

## 5.4 Eithriadau a Derbyn Risg

**Beth yw eithriad**

Mewn amgylchiadau prin ac y gellir eu cyfiawnhau, mae'n bosib y byddai'r Coleg yn cymeradwyo

eithriad i'r Fframwaith hwn neu ei bolisïau atodol lle mae'n angenrheidiol cefnogi gweithgaredd cyfreithlon y Coleg. Mae eithriad yn cynrychioli derbyn yn ffurfiol risg sydd wedi'i ddiffinio'n eglur at ddiben penodol ac ar gyfer cyfnod cyfyngedig o amser.

Er enghraifft, gellir cymeradwyo eithriad er mwyn caniatáu defnydd sydd wedi'i gyfyngu gan amser o system neu wasanaeth nad yw'n bodloni safonau diogelwch seiber y Coleg yn llawn. Byddai eithriad o'r fath ond yn cael ei ystyried lle mae'n angenrheidiol er mwyn cefnogi gweithgarwch hanfodol y Coleg, a lle mae asesiadau risg priodol, rheolau lliniaru a chymeradwyo ffurfiol yn eu lle.

**Cymeradwyo eithriadau**

Rhaid i'r holl eithriadau:

- fod wedi derbyn asesiad risg a'u deall yn eglur
- wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol ymlaen llaw gan Gyfarwyddwr TGCh neu ddirprwy awdurdodedig
- wedi'i gofnodi er mwyn cefnogi cysondeb, tryloywder a bod modd ei archwilio

Lle mae eithriad arfaethedig yn golygu gadael y fframwaith hwn yn sylweddol, mewn ffordd anarferol neu sy'n achosi risg uchel neu ei fod yn mynd y tu hwnt i gyfradd risg dderbyniol y Coleg, bydd yn cael ei uwchgyfeirio i'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol er mwyn cael ei ystyried

**Yr hyn nad yw eithrio'n ei ganiatáu**

Rhaid i eithriadau gael eu cymeradwyo'n ffurfiol ymlaen llaw. Nid yw cymeradwyaeth anffurfiol, lleol neu sy'n cael ei awgrymu neu gymeradwyo ôl-syllol yn ddilys ac ni ddylid dibynnu arnynt.

Nid yw eithriad a gymeradwywyd:

- ond yn berthnasol i weithgaredd, pwrpas a chyfnod amser penodol y cafodd ei gymeradwyo
- yn diddymu'r gofyn am ddiogelu priodol, mesurau lliniaru neu drosolwg parhaus
- yn newid neu'n diystyru polisïau'r Coleg yn fwy cyffredinol
- yn creu cynsail neu hawl i ddisgwyliadau yn y dyfodol
- ac ni ddylid eu hymestyn, eu hailddefnyddio neu eu rhoi ar waith mewn unrhyw system, gwasanaeth, gweithgaredd neu gyd-destun arall

**Gwneud penderfyniadau**

Gwneir penderfyniadau sy'n gysylltiedig gyda dehongli, disgwyliadau neu dderbyn risgiau drwy ddefnyddio barn broffesiynol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac ystyriaeth i draweffaith posib ar unigolion a'r Coleg. Mae penderfyniadau'n dilyn gweithdrefnau ac egwyddorion y Coleg ynghylch tegwch a chymesuredd.

# 6 Addysg, Arweiniad a Chefnogaeth

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sut mae'r Coleg yn cefnogi defnyddwyr i ddeall a bodloni gofynion diogelwch gwybodaeth, diogelu, a diogelu data drwy gyfrwng addysg gymesur, arweiniad a chefnogaeth barhaus.

## 6.1 Pwrpas Addysg a Chefnogaeth

Mae addysg ac arweiniad yn ganolog i agwedd y Coleg tuag at ddiogelwch gwybodaeth a diogelu. Maent yn cefnogi defnyddio technoleg a gwybodaeth yn ddiogel, yn hyderus ac yn gyfrifol ac yn helpu i:

- leihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau a niwed
- hyrwyddo ymddygiad cyson a chyfrifol
- gwahaniaethu rhwng camgymeriad gwirioneddol a diffyg cydymffurfio ailadroddus

Bwriad addysg a chefnogaeth yw atal problemau rhag codi a helpu defnyddwyr i weithio'n ddiogel ac yn hyderus, yn hytrach na chosbi camgymeriadau.

## 6.2 Dull Cymesur sy'n Seiliedig ar Rôl

Darperir hyfforddiant ac arweiniad ar sail gymesur, gan gymryd i ystyriaeth:

- rôl, cyfrifoldebau a mynediad at system
- natur a sensitifrwydd y wybodaeth sy'n cael ei thrin
- diogelu a risgiau diogelwch ar-lein
- gwahanol lefelau o brofiad, hyder ac anghenion cefnogi

Er enghraifft, mae'n bosib y bydd gofyn i ddefnyddwyr gyda mynediad at system neu gyfrifoldeb uwch dros wybodaeth sensitif gwblhau hyfforddiant ychwanegol neu'n fwy aml.

Mae sesiwn gynefino, hyfforddiant adolygu a chanllawiau penodol i rôl wedi'u teilwra fel bod disgwyliadau'n eglur, yn realistig ac yn rhai y gellir eu cyflawni'n ymarferol.

## 6.3 Cwmpas y Fframwaith a Deunyddiau Cefnogol

Mae'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio'n fwriadol ar egwyddorion Haen 1, llywodraethu, rolau a disgwyliadau. Mae cynnwys gweithredol manwl, gan gynnwys gweithdrefnau, safonau technegol a chanllawiau cam wrth gam yn cael eu cynnal ar wahân, a'u cyfathrebu drwy:

- sesiynau cynefino a hyfforddiant diweddaru
- briffiau ac adnoddau sy'n benodol i rôl
- Canllawiau'r coleg a deunyddiau ar gyfrer y we

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y Fframwaith yn parhau i fod yn sefydlog ac yn strategol, wrth alluogi deunyddiau atodol ddatblygu yn unol â thechnoleg, risg ac ymarfer.

### 6.4 Cyfrifoldebau Defnyddiwr

Disgwylir i'r holl ddefnyddwyr:

- ymgysylltu gyda'r dysgu sy'n ofynnol a'r canllawiau a roddwyd, fel y mae'n briodol i'w rôl neu fynediad
- hyfforddiant gorfodol llawn fel y cyfarwyddir, a lle mae'n briodol i'w rôl neu eu mynediad
- cymhwyso hyfforddiant a chyngor wrth ddefnyddio systemau a gwybodaeth o ddydd i ddydd
- ceisio cyngor neu gefnogaeth lle mae gofynion yn aneglur neu'n ansicr
- mynegi pryderon neu gwestiynau yn syth yn hytrach na gweithredu oddi allan i'r canllawiau

Mae'r Coleg yn annog defnyddwyr i godi cwestiynau neu i chwilio am gefnogaeth yn gynnar, gan gydnabod bod hyn yn helpu i atal problemau rhag cynyddu ac yn cefnogi ymarfer mwy diogel

## 7 Monitro Diogelu a Phreifatrwydd

Gall y Coleg fonitro defnyddio ei TGCh lle mae'n angenrheidiol er mwyn diogelu dysgwyr, staff, systemau a gwybodaeth, wrth barhau i barchu preifatrwydd, cymesuredd a gofynion cyfreithlon. Mae monitro'n ddull amddiffynol ac ataliol er mwyn lleihau risg a niwed, ac nid yw wedi'i fwriadu fel ffordd o gadw golwg yn rheolaidd neu'n gosbol.

### 7.1 Diben a Chwmpas Monitro

Mae'r Coleg yn monitro'r defnydd o TGCh y Coleg er mwyn:

- diogelu dysgwyr, staff a defnyddwyr eraill
- diogelu TGCh y Coleg
- atal, adnabod, a lle mae'n angenrheidiol archwilio camddefnydd, twyll neu weithgaredd troseddol
- bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a diogelu

Mae Monitro'n berthnasol i TGCh ac nid yw'n golygu cadw golwg parhaus neu'n rheolaidd ar ddysgwyr neu staff unigol.

### 7.2 Sail Gyfreithiol ac Awdurdodi

Bydd monitro'n cael ei wneud o dan sail gyfreithiol briodol, gan gynnwys:

- diddordebau cyfreithiol y Coleg
- cydymffurfiaeth gyda rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol
- diogelu diddordebau hanfodol, lle mae'n gymwys

Lle mae gweithgarwch monitro'n debygol o arwain at fwy o risg i hawliau neu ryddid unigolyn, bydd Asesiad Traweffaith Diogelu Data (DPIA) yn cael ei gwblhau yn unol â gofynion diogelu data.

Mae mynediad at wybodaeth monitro a phenderfyniadau i adolygu gweithgarwch unigol, wedi'u cyfyngu i staff awdurdodedig ac yn ddibynnol ar gymeradwyaeth briodol.

### 7.3 Sut mae Monitro'n Cael ei Gymhwyso

Mae dull y Coleg o fonitro:

- yn gymesur ac yn seiliedig ar risg
- yn dibynnu'n bennaf ar reoliadau awtomatig
- wedi'i dargedu tuag at risgiau diogelwch, diogelu neu gyfreithiol y gellir eu hadnabod yn eglur, yn hytrach nag ymddygiad cyffredinol defnyddwyr

Mae systemau diogelwch awtomatig yn gweithredu'n barhaus er mwyn amddiffyn TGCh y Coleg. Ni ddefnyddir monitro ar gyfer rheoli perfformiad, monitro presenoldeb, neu oruchwylio dysgwyr neu staff yn rheolaidd.

### 7.4 Adolygu Gweithgarwch Unigol

Mae adolygu gweithgarwch unigol yn fesur eithriadol ac ni fydd ond yn digwydd pan mae yna sail benodol ac y gellir eu cyfiawnhau i bryderon. Gall y rhain gynnwys:

- pryderon ynghylch diogelu neu ddiogelwch ar-lein
- amheuaeth o gamddefnyddio TGCh y Coleg
- digwyddiadau diogelwch neu rybuddion ynghylch systemau
- cais cyfreithlon gan awdurdod allanol

Mae unrhyw adolygiad o weithgarwch unigol angen ei awdurdodi gan y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol, ac fe'i cynhelir mewn cydymffurfiaeth gyda GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018, a deddfwriaeth gysylltiedig.

Mae camerâu cylch cyfyng yn gweithredu ar wahân ar gyfer diogelwch y safle ac atal troseddau ac fe'i rheolir gan Bolisi Camera Cylch Cyfyng y Coleg.

## 8 Adrodd am Bryderon a Digwyddiadau

Mae'r adran hon yn egluro sut y dylai pryderon a digwyddiadau sy'n gysylltiedig gyda diogelwch gwybodaeth, diogelu, diogelwch ar-lein a diogelu data gael eu hadrodd amdanynt a'u rheoli er mwyn lleihau risg ac osgoi niwed.

### 8.1 Beth Ddylid ei Adrodd

Rhaid i bob defnyddiwr adrodd am amheuaeth o bryderon neu bryderon gwirioneddol sy'n gysylltiedig gyda:

- chamddefnyddio TGCh y Coleg neu gyfaddawdu cyfrif
- digwyddiadau diogelwch seiber, gan gynnwys gwe-rwydo neu faleiswedd
- tor-data personol neu achosion fu bron â digwydd
- pryderon ynghylch diogelwch ar-lein neu ddiogelu
- amheuaeth o dor-diogelwch, diogelu data neu ddiogelu, neu achosion gwirioneddol ohonynt sy'n ymwneud â thrydydd parti

Lle mae risg uniongyrchol o niwed i unigolyn, dylid cysylltu gyda'r gwasanaethau brys yn ddi-oed.

### 8.2 Sut i Adrodd

Mae'r Coleg yn darparu sawl llwybr adrodd er mwyn sicrhau y gellir codi pryderon yn syth ac mewn modd priodol. Dylai pryderon gael eu hadrodd amdanynt drwy'r llwybr Coleg mwyaf perthnasol, gan gynnwys:

- **Desg Gymorth TGCh neu'r Tîm TGCh** - camddefnyddio TGCh y Coleg a phryderon ynghylch diogelwch
- **Y Tîm Diogelu** - pryderon diogelu a diogelwch ar-lein
- **Swyddog Diogelu Data** - diogelu data a thor-data personol
- **Rheolaeth llinell neu lwybrau adrodd Coleg dynodedig eraill** - lle mae'n briodol

Bydd llwybrau adrodd yn cael eu cyfathrebu drwy weithdrefnau, canllawiau a hyfforddiant y Coleg.

### 8.3 Sut mae Adroddiadau'n cael eu Trin

Mae pob adroddiad yn:

- cael eu trin mewn ffordd sensitif a chymesur
- cofnodi yn unol â gweithdrefnau'r Coleg
- yn cael eu cyrchu gan dimau arbenigol priodol

Bydd gwybodaeth ond yn cael ei rhannu gyda'r rhai sydd angen gwybod er mwyn rheoli'r pryder, bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol, a lleihau perygl o niwed.

### 8.4 Amddiffyniad ar gyfer Rhai sy'n Mynegi Pryderon

Ni fydd unigolion o dan anfantais os ydynt yn mynegi pryder yn ddiffuant. Mae'r Coleg yn hyrwyddo diwylliant lle gall pryderon gael eu mynegi'n ddiogel ac yn gyfrifol, a'i fod yn cefnogi'r rhai sy'n adrodd am broblemau sy'n gysylltiedig â diogelu, diogelwch neu ddiogelu data.

Gall pryderon sy'n gysylltiedig gyda thwyll, afreoleidd-dra ariannol neu ddrygioni difrifol hefyd ei godi o dan Bolisi Gwrth-dwyll a Chwythu'r Chwiban y Coleg.

## 9 Canlyniadau Diffyg Cydymffurfio

Mae'r adran hon yn egluro sut mae'r Coleg yn ymateb yn deg ac yn gymesur pan na fydd y Fframwaith hwn neu ei bolisïau cysylltiedig yn cael eu dilyn.

### 9.1 Egwyddorion ar gyfer Delio gyda Diffyg Cydymffurfio

Lle mae diffyg cydymffurfio'n digwydd, bydd y Coleg yn ymateb yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- gwarchod dysgwyr, staff ac eraill rhag niwed
- diogelu a rhwymedigaethau cyfreithiol
- cymesuredd a thegwch
- dysgu, atal a gwelliant lle bynnag y bo'n bosib

### 9.2 Gwahaniaethau Camgymeriad oddi wrth Gamymddwyn

Pan mae pryderon yn codi, bydd y Coleg yn gwahaniaethu rhwng:

- **camgymeriadau gwirioneddol neu gamddealltwriaeth**, lle mai addysg, arweiniad neu gefnogaeth ychwanegol yw'r ymateb mwyaf priodol; a
- **diffyg cydymffurfio bwriadol, diofal neu ailadroddus**, lle mae angen cymryd camau gweithredu mwy ffurfiol o bosib.

### 9.3 Camau Gweithredu y Gall y Coleg eu Cymryd

Lle mae diffyg cydymffurfio'n cael ei adnabod gall y Coleg gymryd un neu fwy o'r camau canlynol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau:

- darparu canllawiau, hyfforddiant neu gefnogaeth ychwanegol
- camau gweithredu cywiro neu adfer er mwyn lleihau risg neu atal rhag ailddigwydd
- cyfyngu ar fynediad at TGCh y Coleg dros dro neu'n barhaol
- rheolaeth, gallu neu gamau disgyblu, yn unol â'r gweithdrefnau Coleg perthnasol
- atgyfeirio at awdurdodau allanol lle mae'n ofynnol gwneud hynny yn ôl y gyfraith neu rwymedigaethau diogelu

Bydd unrhyw gamau gweithredu a gymerir yn gyfiawn ac yn gymesur â natur a difrifoldeb y mater.

### 9.4 Diogelu a Thriniaeth Deg

Bydd pob cam sy'n gysylltiedig gyda diffyg cydymffurfio yn cael eu cymryd:

- yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Coleg
- gyda throsolwg ac awdurdodiad priodol
- gydag ystyriaeth briodol i degwch, cyfrinachedd a diogelu data
- cydnabod dyletswydd gofal y Coleg i ddysgwyr a staff

Lle mae dysgwyr yn gysylltiedig, bydd ymatebion yn cymryd i ystyriaeth gyfrifoldebau diogelu a'r cyd-destun addysgol, gyda chefnogaeth a lles yn cael eu blaenoriaethu.

Lle mae materion sy'n ymwneud â staff yn symud ymlaen y tu hwnt i arweiniad neu gefnogaeth anffurfiol, bydd unrhyw gamau gweithredu'n cael eu rheoli yn unig drwy bolisïau a gweithdrefnau disgyblu AD.

## 10 Y Cyd-destun Cyfreithiol a Rheoleiddio

Mae'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio yma'n gweithredu ar sail agwedd y Coleg tuag at ddiogelu, diogelu data a diogelwch gwybodaeth ac maent yn seiliedig ar sut mae'r fframwaith hwn yn cael ei gymhwyso'n ymarferol.

- GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data 2018
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 Deddf Pwerau Ymchwilio 2016
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (Dyletswydd atal)
- Deddf Diogelwch Ar-lein 2023
- Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025
- Deddf Cydraddoldeb 2010

Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol ac mae'n adlewyrchu deddfwriaeth ar waith ar adeg cymeradwyo.

## 11 Adolygu ac Argaeledd

Mae'r fframwaith a'r polisïau cysylltiedig yn cael eu hadolygu'n flynyddol, neu'n gynt lle mae hynny'n ofynnol oherwydd newidiadau yn y gyfraith, technoleg neu risg.

Mae'r Coleg yn defnyddio digwyddiadau archwiliadau ac adborth er mwyn cefnogi gwelliant parhaus o'i drefniadau diogelwch gwybodaeth.

# POLISI DEFNYDD DERBYNIOL

## 1 Datganiad Polisi

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau bod TGCh y Coleg yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyfreithlon a chyfrifol. Mae defnydd priodol o dechnoleg yn cefnogi addysgu, dysgu a gweithrediadau o ddydd i ddydd ac yn helpu i amddiffyn dysgwyr, staff ac asedau gwybodaeth ac enw da y Coleg.

## 2 Pwrpas a Chwmpas

Mae'r polisi hwn:

- yn diffinio defnydd derbyniol ac annerbyniol o TGCh y Coleg
- yn gosod cyfrifoldebau'r defnyddiwr ar gyfer cadw cyfrifon, systemau a data yn ddiogel
- yn cefnogi cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddio a pholisïau ehangach y Coleg

Gall addasiadau rhesymol neu gefnogaeth ychwanegol gael eu darparu er mwyn galluogi defnydd priodol a chyfrifol o TGCh y Coleg, yn unol â pholisïau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Coleg.

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r Fframwaith Gwybodaeth Llywodraethu a rhaid iddo gael ei ddarllen a'i roi ar waith ar y cyd gydag o.

## 3 Safonau Defnyddio ac Ymddygiad

Mae'r gofynion hyn yn canolbwyntio ar ddefnyddio TGCh y Coleg yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn awdurdodedig.

### 3.1 Yr Hyn Mae'n Rhaid i Chi ei Wneud:

- dim ond defnyddio eich cyfrif Coleg eich hun a chadw cyfrineiriau'n gyfrinachol
- galluogi awdurdodiad aml-ffactor (MFA) lle darperir hynny
- adrodd am unrhyw achosion lle ceir amheuaeth o gyfaddawdu (er enghraifft, dyfeisiadau sydd wedi eu colli neu eu dwyn, gwe-rwydo, neu weithgaredd anarferol) cyn gynted ag sy'n bosib
- defnyddio TGCh y Coleg ar ddibenion cyfreithlon, awdurdodedig a phriodol yn unig
- defnyddio eich cyfrif e-bost Coleg ar gyfer busnes y Coleg
- sicrhau bod unrhyw ddefnydd personol a wneir o TGCh y Coleg yn rhesymol, yn anaml, ac yn achlysurol, ac nad yw'n amharu ar waith neu ddysgu, perfformiad system, diogelwch neu weithrediadau'r Coleg
- cydymffurfio gyda thelerau ac amodau allanol lle maent yn gymwys (er enghraifft, Polisi Defnydd Derbyniol JANET)

- dim ond gosod meddalwedd sydd wedi'i gymeradwyo'n unig gan TGCh a chysylltu caledwedd sydd wedi'i gymeradwyo'n unig gan TGCh
- cadw dyfeisiaau'r Coleg yn ddiogel yn ffisegol a chloi sgriniau pan nad ydych yn eu defnyddio
- ymrestru dyfeisiadau personol gyda dull o reoli dyfais a gymeradwyir gan y Coleg lle mae'n angenrheidiol; gall hyn gynnwys defnyddio gosodiadau diogelwch a diddymu data Coleg o bell
- storio gwybodaeth y Coleg mewn lleoliadau storio TGCh Coleg wedi'u cymeradwyo yn unig, ac nid mewn dyfeisiadau neu gyfrifon cwmwl personol
- defnyddio amgryptio neu ddiogelu cyfrinair wrth anfon data personol neu sensitif
- cydymffurfio gyda gofynion hawlfraint a thrwyddedu
- osgoi datgelu gwybodaeth ar hap neu heb ei awdurdodi
- dim ond cadw gwybodaeth cyhyd ag y mae ei hangen
- gwaredu unrhyw wybodaeth yn ddiogel ac yn unol â gweithdrefnau'r Coleg

### 3.2 Yr Hyn Na Ddylech ei Wneud

- gofyn am, ddefnyddio neu rannu manylion personol unrhyw un arall, neu rannu eich manylion personol eich hun
- cyrchu unrhyw gyfrif, system neu ddata heb ganiatâd penodol
- ceisio goddiweddyd, analluogi neu wanhau rheolwyr diogelu
- amharu ar weithrediad systemau neu rwydweithiau
- ymgymryd â phrofi diogelwch neu ymchwilio heb awdurdod
- cyrchu, creu, storio neu rannu cynnwys sy'n anghyffreithlon, yn gwahaniaethu, aflonyddu, yn eithafol, aflednais, difenwol neu'n debygol o ddwyn anfri ar y Coleg
- defnyddio gwasanaethau sydd heb eu cymeradwyo (gan gynnwys cyfrifon personol) er mwyn storio neu rannu gwybodaeth y Coleg
- defnyddio rhwydweithiau cyhoeddus neu anniogel er mwyn cael mynediad at TGCh y Coleg oni bai bod dulliau mynediad diogel neu reoliadau yn eu lle
- ymgymryd â gweithgareddau sy'n amlygu'r Coleg neu ei ddefnyddwyr i risg diogelwch, diogelu neu o ran enw da
- storio data personol y Coleg neu ddata sensitif ar ddyfeisiau personol

# POLISI E-DDIOGELWCH

## 1 Datganiad Polisi

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i E-Ddiogelwch a lles pob dysgwr, staff ac aelod o gymuned y Coleg pan maent yn defnyddio technolegau digidol a phlatfformau ar-lein. Mae E-Ddiogelwch yn rhan greiddiol o ddiogelu ac mae'n sail i gyfrifoldeb y Coleg i ddiogelu unigolion rhag niwed ar-lein.

## 2 Pwrpas a Chwmpas

Mae'r polisi hwn yn bodoli er mwyn:

- hyrwyddo defnydd diogel, cyfrifol a moesegol technolegau digidol ar draws y Coleg
- gwarchod defnyddwyr rhag risg a niwed ar-lein
- cynnal ffiniau proffesiynol eglur rhwng staff a dysgwyr
- cefnogi cydymffurfio gyda diogelu, Prevent, diogelu data a gofynion perthnasol
- diogelu enw da'r Coleg a'i bresenoldeb digidol

Mae'r Coleg yn cydnabod y gall risgiau ar-lein effeithio defnyddwyr yn wahanol yn dibynnu ar oedran, profiad ac amgylchiadau unigol. Gall rhai dysgwyr fod yn fwy agored i niwed ar-lein oherwydd anghenion dysgu ychwanegol, anableddau profiad o fod mewn gofal, anghenion iechyd meddwl, eithrio digidol neu ffactorau eraill.

Bydd y gwahaniaethau yma'n cael eu hystyried wrth gymhwyso'r polisi hwn, a bydd addasiadau rhesymol neu gefnogaeth ychwanegol yn cael ei ddarparu lle mae'n briodol er mwyn helpu pob dysgwr i ymgysylltu'n ddiogel gyda thechnolegau digidol.

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r Fframwaith Gwybodaeth Llywodraethu a rhaid iddo gael ei ddarllen a'i roi ar waith ar y cyd gydag o.

## 3 Safonau Defnyddio ac Ymddygiad

Mae'r gofynion hyn yn canolbwyntio ar ddiogelu, ymddygiad ac atal niwed gyda gweithgareddau ar-lein, p'un a yw hynny'n digwydd ar systemau'r Coleg, dyfeisiau personol neu blatfformau allanol.

### 3.1 Yr Hyn Mae'n Rhaid i Chi ei Wneud:

- gweithredu'n ddiogel, yn barchus ac yn broffesiynol ar-lein, p'un a yw'r gweithgaredd yn bersonol neu'n gysylltiedig gyda'r Coleg
- cadw at ffiniau proffesiynol priodol wrth gyfathrebu ar-lein
- diogelu gwybodaeth bersonol, sensitif a chyfrinachol
- defnyddio platfformau a gymeradwyir gan y Coleg (megis Teams neu Canvas) ar gyfer cyfathrebu gyda dysgwyr ac ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu - staff yn unig

- sicrhau bod ffotograffau, recordiadau neu ffilmio dysgwyr neu staff wedi'u hawdurdodi at bwrpas y Coleg a bod ganddynt sail gyfreithiol briodol
- storio a rhannu delweddau a recordiadau sydd wedi'u hawdurdodi yn ddiogel
- defnyddio pob offeryn deallusrwydd artiffisial (AI) mewn ffyrdd na fydd yn cyfaddawdu ar ddiogelu, diogelu data, lles, uniondeb academaidd neu ddiogelwch asesu, ac yn unol â chanllawiau'r Coleg
- cyflunio gosodiadau preifatrwydd ar blatfformau ar-lein er mwyn lleihau'r perygl o fynediad at wybodaeth bersonol neu ei datgelu yn anawdurdodedig
- defnyddio offer cyfathrebu digidol (gan gynnwys e-bost, platfformau negeseuo a chydweithredu) yn broffesiynol ac yn gyfrifol, gan gydnabod bod cyfathrebiadau a anfonir drwy systemau TGCh y Coleg yn adlewyrchu ar y sefydliad ac y gallant fod â goblygiadau diogelu neu broffesiynol
- bod yn ofalus wrth agor atodiadau, gan ddilyn dolenni neu ymateb i anfonwyr anghyfarwydd
- adrodd am unrhyw bryderon diogelu neu ddiogelwch ar-lein yn gyflym, gan gynnwys pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol neu gam-drin yn seiliedig ar ddelweddau
- adrodd am bryderon hyd yn oed pan mae'r digwyddiadau hynny wedi digwydd oddi ar y safle, y tu allan i oriau'r Coleg neu gan ddefnyddio dyfeisiau personol
- adrodd am gynnwys sydd wedi'i greu gan AI sy'n codi pryderon diogelu drwy sianeli priodol y Coleg

**3.2 Yr Hyn Na Ddylech ei Wneud:**

- cymryd rhan mewn bwlio, aflonyddu neu ymddygiad gwahaniaethol ar-lein
- cymryd rhan mewn seiber-fwlio, aflonyddu rhywiol ar-lein, cam-drin yn seiliedig ar ddelwedd, cam-drin cyfoedion tuag at gyfoedion neu unrhyw ffurf ar ymddygiad gorfodol neu ecsbloetiol ar-lein
- cael mynediad, creu neu rannu cynnwys anghyfreithlon neu niweidiol
- cyfranogi mewn gweithgaredd ar-lein a allai niweidio enw da'r Coleg
- cychwyn neu gymryd rhan mewn cysylltiadau cyfryngau cymdeithasol uniongyrchol neu anfon negeseuon preifat gyda dysgwyr oddi allan i'r platfformau a gymeradwyir gan y Coleg
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyfathrebu gyda dysgwyr ynghylch materion Coleg oddi allan i systemau a gymeradwyir gan y Coleg
- defnyddio enw, brandio neu ddelweddau'r coleg ar gyfrifon personol mewn ffordd sy'n awgrymu cymeradwyaeth y Coleg heb awdurdodiad
- datgelu gwybodaeth gyfrinachol, sensitif neu bersonol heb awdurdodiad priodol
- llwytho data personol neu sensitif i offer AI cyhoeddus oni bai y cymeradwyir hynny gan Asesiad Traweffaith Diogelu Data (DIPA) priodol a'i fod yn cael ei lywodraethu ganddo
- defnyddio offer AI sy'n amlygu dysgwyr i gynnwys anniogel neu heb ei gymedroli
- rhannu enwau defnyddwyr, cyfrineiriau neu godau awdurdodi gydag eraill

- cymryd yn ganiataol bod e-byst neu gyfathrebiadau ar-lein yn defnyddio systemau'r Coleg yn gwbl breifat neu wedi'u heithrio o'r monitro sy'n ofynnol ar gyfer diogelu, diogelwch neu bwrpasau cyfreithlon.

# POLISI DIOGELWCH GWYBODAETH

## 1 Datganiad Polisi

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddiogelu cyfrinachedd uniondeb ac argaeledd TGCh y Coleg. Mae diogelwch gwybodaeth effeithiol yn cefnogi addysgu a dysgu, yn galluogi gweithrediadau effeithiol, ac yn lleihau risg gweithredol, ariannol a risg i enw da, pan mae'n cael ei gymhwyso mewn ffordd gymesur ac sy'n seiliedig ar risg.

Mae'r polisi hwn yn cefnogi cydymffurfio gyda Cyber Essentials ac yn alinio gydag egwyddorion ISO/IEC 27001.

## 2 Pwrpas a Chwmpas

Mae'r polisi'n amlinellu disgwyliadau diogelwch gwybodaeth y Coleg ac mae'n cael ei gefnogi drwy safonau manwl, gweithdrefnau a chanllawiau o fewn y Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth.

Nod y polisi hwn yw:

- amddiffyn TGCh y Coleg rhag colled, camddefnydd, mynediad anawdurdodedig neu amhariad
- lleihau'r tebygolrwydd a thraweffaith digwyddiadau diogelwch gwybodaeth
- diffinio disgwyliadau ar gyfer defnyddio system ac ymddwyn yn ddiogel
- cefnogi diogelu, preifatrwydd a diogelwch ar-lein

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r Fframwaith Gwybodaeth Llywodraethu a rhaid iddo gael ei ddarllen a'i roi ar waith ar y cyd gydag o.

## 3 Egwyddorion Diogelwch Gwybodaeth

Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i agwedd y Coleg at ddiogelwch gwybodaeth ac maent yn seiliedig ar:

- ddyluniad sy'n seiliedig breifatrwydd a diogelu
- y lleiaf o gyrchfraint
- amddiffyniad trylwyr
- rheoliadau cymesur, yn seiliedig ar risg
- cyfrifoldeb a rennir
- adolygiad a gwelliant parhaus

Mae risgiau diogelwch gwybodaeth yn cael eu hadnabod, eu hasesu a'u rheoli'n barhaus fel bod y risgiau'n parhau i fod o fewn y cyfyngiadau derbyniol.

## 4 Ymrwymiadau Diogelwch Gwybodaeth

### 4.1 Rheoli Asedau Gwybodaeth

Bydd y Coleg yn rheoli ei wybodaeth a TGCh Coleg fel asedau gwybodaeth, gan sicrhau perchnogaeth eglur a dull diogelu priodol drwy gydol eu cylch oes.

### 4.2 Dosbarthiad Gwybodaeth

Bydd y Coleg yn nodi dosbarth ei wybodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn derbyn y dull diogelu priodol a bydd yn cymhwyso gofynion trin sy'n adlewyrchu sensitifrwydd, pwysigrwydd a'r defnydd a wneir o'r wybodaeth honno.

### 4.3 Rheoli Mynediad a Dilysu

Bydd y Coleg yn sicrhau bod y mynediad at ei systemau a'i wybodaeth yn cael ei reoli, yn briodol i rolau defnyddwyr, ac yn cael eu rheoli'n ddiogel drwy gydol cylch oes cyfrifon defnyddwyr. Defnyddir mesurau dilysu priodol, gan gynnwys dilysu aml-ffactor lle mae ar gael, er mwyn amddiffyn mynediad.

### 4.4 Diogelwch Dyfais a Phwynt Terfyn

Bydd y Coleg yn sicrhau bod dyfeisiau sy'n eiddo i'r Coleg a phwyntiau terfyn yn cael eu rheoli a'u hamddiffyn mewn ffordd briodol er mwyn atal mynediad anawdurdodedig, colli data, neu ei gyfaddawdu, ac i gefnogi defnyddio, cynnal a chadw a gwaredu offer yn ddiogel.

### 4.5 Diogelwch Rhwydwaith a Seilwaith

Bydd y Coleg yn sicrhau bod ei rwydweithiau a'i seilwaith cefnogol yn cael eu hamddiffyn rhag mynediad anawdurdodedig, camddefnydd ac amhariad, gan ddefnyddio rheolwyr technegol a threfniadol er mwyn cynnal diogelwch, gwytnwch a dibynadwyedd.

### 4.6 Diogelwch Gwybodaeth a Data

Bydd y Coleg yn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei storio, ei rhannu a'i gwaredu yn ddiogel, gyda dulliau diogelu priodol yn cael eu cymhwyso er mwyn atal mynediad anawdurdodedig, colled neu ddatgeliad, yn arbennig felly pan fo gwybodaeth yn bersonol neu'n sensitif.

### 4.7 E-bost, Gwe-rwydo ac Ymwybyddiaeth Defnyddiwr

Bydd y Coleg yn hyrwyddo defnydd diogel o e-bost a systemau negeseuo drwy ddulliau diogelu technegol priodol, ymwybyddiaeth gan y defnyddiwr a threfniadau adrodd er mwyn lleihau'r risg o we-rwydo, twyll a bygythiadau eraill sydd wedi'u teilwra'n gymdeithasol.

**4.8 Diogelwch Trydydd Parti a Chyflenwyr**

Bydd y Coleg yn rheoli risgiau diogelwch gwybodaeth sy’n codi o berthnasoedd trydydd parti a chyflenwyr drwy gymhwyso rheolwyr priodol, trosolwg a sicrwydd drwy gydol cylch oes y trefniadau hynny.

**4.9 Trefniadau Wrth Gefn, Gwytnwch ac Argaeledd**

Bydd y Coleg yn sicrhau bod trefniadau wrth gefn ac adfer priodol yn eu lle er mwyn diogelu systemau a gwybodaeth hanfodol ac er mwyn cefnogi parhad busnes a gwytnwch gweithredol.

**4.10 Rheoli Digwyddiadau**

Bydd y Coleg yn sicrhau bod digwyddiadau diogelwch gwybodaeth yn cael eu hadnabod, eu hadrodd amdanynt a’u rheoli’n syth ac mewn modd cymesur, er mwyn lleihau niwed, adfer gwasanaethau a rhag iddynt ddigwydd eto.

# POLISI DIOGELU DATA

## 1 Datganiad Polisi

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddiogelu data personol a pharchu preifatrwydd unigolion. Mae gwarchod data effeithiol yn cefnogi diogelu, ymddiriedaeth a hyder o ran sut mae'r Coleg yn gweithio gyda dysgwyr, staff, partneriaid a'r gymuned yn ehangach.

Bydd y Coleg yn prosesu data personol mewn ffordd gyfreithlon, deg a thryloyw, yn unol â'r gyfraith diogelu data.

## 2 Pwrpas a Chwmpas

Mae'r polisi hwn yn amlinellu disgwyliadau'r Coleg ar gyfer trin data personol mewn ffordd gyfreithlon a chyfrifol. Ei nod yw:

- diogelu hawliau a rhyddid unigolion y mae'r Coleg yn prosesu eu data personol
- sicrhau bod data personol yn cael ei reoli'n deg, ac mewn ffordd sy'n ddiogel ac yn dryloyw
- cefnogi diogelu, preifatrwydd a diogelwch gwybodaeth ar draws y sefydliad
- darparu dull cyson ac atebol o ddiogelu data

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r Fframwaith Gwybodaeth Llywodraethu a rhaid iddo gael ei ddarllen a'i roi ar waith ar y cyd gydag o.

## 3 Egwyddorion Diogelu Data

Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i ddull y Coleg o drin data personol ac yn rhoi arweiniad ar sut y gwneir penderfyniadau ynghylch diogelu data, a dangosir cydymffurfiaeth o dan y polisi hwn.

Bydd y Coleg yn prosesu data personol yn unol â'r egwyddorion diogelu data. Bydd data personol yn:

- cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw
- cael ei gasglu at ddibenion arbennig, penodol a chyfreithlon
- addas, perthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol
- fanwl gywir ac yn cael eu diweddaru
- cael eu cadw dim ond cyhyd ag y mae'n angenrheidiol
- wedi'u diogelu drwy fesurau diogelwch priodol

Mae'r Coleg yn cydnabod ei atebolrwydd ar gyfer cydymffurfio gyda'r egwyddorion hyn. Bydd tystiolaeth o gydymffurfio yn cael ei gynnal drwy drefniadau llywodraethu, polisïau, gweithdrefnau, cofnodion a hyfforddiant.

## 4 Ymrwymiadau Diogelu Data

### 4.1 Prosesu Cyfreithlon a Theg

Bydd y Coleg yn sicrhau bod holl brosesu data personol yn cael ei wneud ar sail gyfreithlon a bod unigolion yn cael eu hysbysu ynghylch sut mae eu data personol yn cael ei ddefnyddio drwy hysbysiadau preifatrwydd a phrosesu teg.

Mae trefniadau yn eu lle er mwyn cefnogi hawliau unigolyn o dan gyfraith diogelu data, gan gynnwys mynediad at eu data personol. Bydd ceisiadau sy’n gysylltiedig â data personol yn cael eu rheoli drwy brosesau sy’n cael eu goruchwylio gan y Swyddog Diogelu Data.

Bydd Asesiadau Traweffaith Diogelu Data yn cael eu cwblhau lle mae prosesu’n debygol o arwain at fwy o risg i hawliau a rhyddid unigolion, gan gynnwys cyflwyno systemau, technolegau, neu weithgareddau prosesu newydd.

### 4.2 Diogelwch Gwybodaeth a Diogelu Data

Bydd y Coleg yn diogelu data personol drwy’r mesurau technegol a sefydliadol priodol, sydd wedi’u halinio gyda’r Polisi Diogelwch Gwybodaeth a safonau cefnogol.

Mae rheolwyr diogelu wedi’u bwriadu er mwyn atal mynediad anawdurdodedig, colled, camddefnydd neu ddatgelu data personol er mwyn cefnogi cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd. Mae diogelu data a diogelwch gwybodaeth yn cael eu rheoli gyda’i gilydd fel rhan o ddull cyffredinol y Coleg o reoli risg a diogelu.

### 4.3 Rhannu Data a Datgeliad

Bydd y Coleg ond yn rhannu data personol pan mae rheswm cyfreithiol dilys dros wneud hynny a lle mae’r mesurau diogelu priodol yn eu lle.

Bydd rhannu data gyda thrydydd parti, gan gynnwys partneriaid a chontractwyr, yn cael ei reoli gan gytundebau priodol a threfniadau goruchwylio er mwyn sicrhau bod data personol yn cael ei ddiogelu ac ond yn cael ei ddefnyddio at bwrpas awdurdodedig.

Bydd datgeliadau i gyrff allanol, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus, yn cael eu rheoli’n ofalus ac yn gymesur yn unol â pholisi’r Coleg a’r gyfraith sy’n gymwys.

### 4.4 Torri Data Personol

Bydd y Coleg yn rheoli unrhyw dor-data personol yn syth ac mewn ffordd gymesur er mwyn lleihau niwed ac er mwyn bodloni rhwymedigaethau rheoleiddiol. Rhaid i bob achos yr amheuir iddo fod yn torri data, neu achosion gwirioneddol o dorri data gael eu hadrodd yn syth drwy gyfrwng trefniadau adrodd am ddigwyddiadau’r Coleg.

Bydd achosion o dorri data syn ymwneud â data personol yn cael eu hasesu a'u rheoli gyda throsolwg gan y Swyddog Diogelu Data, yn unol â'r broses Digwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth.

Lle mae toriad yn debygol o arwain at risgiau i hawliau a rhyddid unigolion, bydd y Coleg yn hysbysu Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) heb unrhyw oedi diangen, a lle mae'n ddichonadwy, o fewn 72 awr i ddod yn ymwybodol o'r toriad.